
# BLOG WYTHNOSOL DAI



Cartref Cysylltiadau Sylwadau

▸2011

▾2012

- Ionawr
- Chwefror
- Mawrth
- Ebrill
- Mai
- Mehefin
- Gorffennaf
- Awst
- Medi

Cofnodwyd ar 25 Medi 2012

Mae gen i ddau asgwrn i'w crafu'r wythnos hon a'r ddau yn ymwneud â'r un peth i raddau – coed. Ie, y pethau yna sy'n ffrwydro'n wyrdd gwyllt yn y gwanwyn, yn troi'n felyn a choch a brown yn yr hydref, yn cael eu chwythu i lawr gan stormydd y gaeaf ond yn rhoi cysgod bendigedig rhag haul chwilboeth yr haf.

Digwydd mynd i bori ar wefan y Comisiwn Coedwigaeth wnes i a darganfod ystadegau coetiroedd y DU am y flwyddyn 2010. Rheiny'n dod â llinellau o gerdd enwog Gerallt Lloyd Owen i gof, lle y mae o'n sôn am yr hyn sydd wedi digwydd i gefn gwlad Cymru:

'Troesom ein tir yn simneiau tân
a phlannu coed a pheilonau cadarn
lle nad oedd llyn.'

Dw i'n cynnwys yr ystadegau hyn i chi gael arbed mynd i chwilio amdanynt.

## Arwynebedd coetir, 2010

CC/GC MILOEDD O HECTERAU

| | Conifferaidd | Llydanddail | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Lloegr | 144 | 55 | 199 |
| Cymru | 90 | 15 | 105 |
| Yr Alban | 413 | 30 | 443 |
| Gogledd Iwerddon | 56 | 6 | 62 |
| Y DU | 703 | 105 | 808 |

Nid-CC/GC

| | Conifferaidd | Llydanddail | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Lloegr | 220 | 712 | 932 |
| Cymru | 65 | 114 | 179 |
| Yr Alban | 627 | 273 | 900 |
| Gogledd Iwerddon | 10 | 16 | 26 |
| Y DU | 922 | 1115 | 2037 |

Pob Coetir

| | Conifferaidd | Llydanddail | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Lloegr | 364 | 766 | 1130 |
| Cymru | 155 | 129 | 284 |
| Yr Alban | 1040 | 303 | 1343 |
| Gogledd Iwerddon | 66 | 22 | 88 |
| Y DU | 1625 | 1220 | 2845 |

**Nodiadau:**

1. Arwynebedd ar 31 Mawrth 2010.
2. CC/GC = Y Comisiwn Coedwigaeth / Gwasanaeth Coedwig; Nid-CC/GC = pob coetir arall, gan gynnwys rhai coetiroedd eraill sy'n eiddo i'r cyhoedd.
3. Mae'r ffigurau ar gyfer coetiroedd nid-CC ym Mhrydain Fawr yn seiliedig ar ddata a gafwyd o Restr Genedlaethol Coetiroedd a Choed 1995-1999 ac fe'u haddaswyd ar gyfer plannu newydd a gwerthu coetiroedd y CC, ond ar hyn o bryd ni wneir unrhyw addasiad ar gyfer coetiroedd a newidiwyd i ddefnydd tir arall.
4. Mae coed llydanddail yn cynnwys prysgoed a phrysgoed gyda choed uncyff.

Dim llawer o broblem yn y fan yna, meddech chi.Llawer mwy o dir dan goetiroedd yn Lloegr a'r Alban nag sydd yng Nghymru! O, oes, ond ystyriwch faint Cymru o'i chymharu â'r gwledydd eraill! Mae 284 hectar yn cynrychioli 14% o gyfanswm arwynebedd tir y wlad. Ble mae disgwyl i'r Cymry fyw? Mewn tŷ yn y goeden?

A'r asgwrn arall? Gweld ar yr un wefan bod disgyblion yn colli ysgol i fynychu Ysgol yn y Goedwig er mwyn dysgu am gynefinoedd adar ac anifeiliaid, arogleuon blodau ac olion traed anifeiliaid – pethau roedden ni'n eu dysgu gan ein rhieni! A nod arall yr ysgol ydy dangos i blant sut i chwarae mewn dŵr a mwd, adeiladu den a cherdded ar fonyn coeden wedi syrthio! Ers pryd mae eisiau ysgol i wneud hynny? Fe fydden ni allan yn yr awyr iach o fore gwyn tan nos ar ddydd Sadwrn yn difyrru ein hunain a'r rhai iau yn dysgu wrth y rhai hŷn. Byddai'n rheitiach i blant heddiw ddilyn ein hesiampl yn lle gorweddian o flaen cyfrifiadur neu gael eu cludo i ganolfan hamdden chwyslyd!